# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19 Ionawr 2004

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau gwario'r Llywodraeth am y chwe mis nesaf. (WAQ31079)

**Peter Law (Blaenau Gwent);** Pa ran a fu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y cynigion i bwrcasu tir wrth ymyl safle siambr ddadlau'r Cynulliad. (WAQ31214)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynrychiolaeth y Cymry ymhlith Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. (WAQ31215)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd oedd y tro diwethaf y cafodd Prif Weinidog Cymru drafodaethau ynglyn â phwrcasu'r tir wrth ymyl Adeilad newydd y Cynulliad (sydd ar hyn o bryd yn destun trafodaethau rhwng ABP a'r Cynulliad Cenedlaethol) gyda pherchennog y tir. (WAQ31241)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi cyngor ynghylch dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop sy'n nodi y gall fod yn anghyfreithlon defnyddio systemau prisio gwahaniaethol i leihau tâl mynediad preswylwyr lleol i adnoddau cyhoeddus – o ran ei effaith ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o roi mynediad am ddim i byllau nofio. (WAQ31264)

**Glyn Davies** (**(Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa arian cyhoeddus sydd ar gael i Culturenet ar gyfer rhedeg cystadleuaeth i ddod o hyd i Arwr Pennaf Cymru. (WAQ31258)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau gwario ei adran am y flwyddyn i ddod. (WAQ31098)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gastell Gwrych yn Abergele. (WAQ31097)

**David Davies (Mynwy);** A ydyw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglyn â'r sefyllfa ynghylch teledu gwylio-am-

ddim drwy loeren, yn arbennig mewn perthynas ag ardaloedd gwledig Cymru. (WAQ31096)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a oes unrhyw gynigion i newid y ffordd y mae grantiau'r Loteri Genedlaethol yn cael eu talu yng Nghymru. (WAQ31093)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd ynglyn ag ad-drefnu cyrff cyllido'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru. (WAQ31095)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfarfodydd a gafodd â chwmnïau trafnidiaeth er mwyn cydlynu'r drafnidiaeth sydd ar gael i fynd i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a gynhelir yng Nghymru ac oddi yno. (WAQ31094)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd. (WAQ31092)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau dawns yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31091)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r adnoddau ariannol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u rhoi o'r neilltu i ariannu cadw darganfyddiadau a wneir yn y dyfodol yng Nghymru sydd o bwys hanesyddol Cenedlaethol. (WAQ31216) **R**

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa ddadansoddiad neu asesiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cynnydd a wnaed yn cyflawni targedau Cymru Greadigol. (WAQ31217)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod y cyfrifoldeb am ddyfodol yr Iaith Gymraeg yn cael ei rannu gan holl Weinidogion y Cynulliad (WAQ31237)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl Cynllun Iaith Gymraeg newydd a gymeradwywyd ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a sawl un fydd yn cael ei gymeradwyo ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf. (WAQ31240)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd neu sydd ar y gweill i sefydlu Fforwm Iaith, a pha ymgynghori a gafwyd ar swyddogaethau a strwythur fforwm o'r fath. (WAQ31242)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi cyngor ynghylch dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop sy'n nodi y gall fod yn anghyfreithlon defnyddio systemau prisio gwahaniaethol i leihau tâl mynediad preswylwyr

lleol i adnoddau cyhoeddus – o ran ei effaith ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o roi caniatâd i bensiynwyr deithio am ddim ar fysiau. (WAQ31263)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu twristiaeth yng Nghymru ymhellach. (WAQ31080)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar â Gweinidogion Llywodraeth y DU dros Ddatblygu Economaidd yng Nghymru. (WAQ31205)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi sut y mae polisïau economaidd ei Lywodraeth yn effeithio ar y Gymru wledig. (WAQ31204)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A ydyw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol neu gyda First Great Western ynglyn ag amser y trên olaf o Ganol Caerdydd i orsaf Paddington Llundain. (WAQ31218)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yng ngoleuni'r ateb i WAQ29227, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos nifer y cwmnïau sy'n derbyn cymorth grant, fesul sir. (WAQ31221)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar ba ddyddiad y rhoddwyd cyfarwyddyd i Symonds Group Ltd wneud cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu D1 a B2-B8 ynghyd â gwaith peirianyddol ar safle hen ffatri KTH yn Llanidloes gan Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ31238)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau yr oedd y Gweinidog wedi'u cymryd cyn diwedd 2003 i sicrhau bod asiantaethau a gâi eu noddi gan ei adran yn cynorthwyo ag ehangu Benji and Co, Llanidloes. (WAQ31239)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa ganran o fyfyrwyr addysg bellach sydd wedi manteisio ar Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn ystod 2003-04 (WAQ31220)

**John Marek (Wrecsam);** A wnaiff y Gweinidog roi dyddiadau'r cyfarfodydd â chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i drafod ad-drefnu presennol yr ysgolion uwchradd, ac a wnaiff hi roi enwau'r cynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r dyddiadau hynny. (WAQ31261)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog dynion a menywod i ymuno â'r proffesiynau crefftus fel plymwyr, trydanwyr a mecanics. (WAQ31223)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd rôl Awdurdodau Addysg Lleol yn y broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol ar ddyfodol y chweched dosbarth yng Nghymru. (WAQ31249)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion ers datganoli yng Nghymru. (WAQ31250)

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y chweched dosbarth mewn ysgolion yn darparu addysg i ddisgyblion ôl-16 yng Nghymru. (WAQ31251)

**David Davies (Mynwy);** Beth yw'r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. (WAQ31252)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd darparu hyfforddiant mewn sgiliau twristiaeth yng Nghymru. (WAQ31253)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyfforddiant addysg bellach sydd ar gael yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31254)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion. (WAQ31255)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i asesu'r galw potensial yng Nghymru am Addysg Uwch. (WAQ31256)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer eu plant pan fyddant yn dechrau ar eu haddysg feithrin. (WAQ31257) **W**

**Glyn Davies** (**(Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad neu unrhyw un o'i hasiantaethau wedi'i roi ar gael i Techniquest ymhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ31259)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi eglurhad ynglyn â'r uchder mwyaf a ganiateir ar gyfer cloddiau rhwng tai cyfagos ac a wnaiff ddatganiad ar unrhyw newidiadau sydd ar fin cael eu cyflwyno i'r ddeddfwriaeth yma yng Nghymru. (WAQ31206)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa astudiaethau porthiant a wnaed mewn perthynas â Chardon LL. (WAQ31209)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y caiff y penderfyniad ynglyn â

rhestru Chardon LL ei wneud. (WAQ31210)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl hectar o goetir sydd wedi'i ailblannu'n flynyddol ar ystad goedwigaeth y Cynulliad ers 1999. (WAQ31211)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl hectar o goetir sydd wedi'i dorri'n flynyddol ar ystad goedwigaeth y Cynulliad ers 1999. (WAQ31212)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw gynlluniau gan y Gweinidog i werthu tir sydd ar hyn o bryd o fewn ystad goedwigaeth y Cynulliad. (WAQ31213)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r amserlen ar gyfer rhoi neu wrthod caniatâd i ddymchwel siediau gwartheg hen farchnad wartheg Trefynwy er mwyn adeiladu'r bont newydd dros yr afon. (WAQ31224)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Yn dilyn WAQ30848, a wnaiff y Gweinidog restr o'r holl rai yng Ngogledd Cymru sydd wedi gwneud cais i Cyswllt Ffermio i addasu adeiladau fferm yn llety gwyliau, y penderfyniad a wnaed ar y cais a'r rhesymau dros gefnogi'r penderfyniad. (WAQ31225)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa dystiolaeth sy'n bodoli o bresenoldeb wiwerod coch yng nghwm Dulais a'r ardaloedd cyfagos. (WAQ31226)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa dystiolaeth sy'n bodoli o bresenoldeb wiwerod coch yng Nghoedwig Rheola a'r ardaloedd cyfagos. (WAQ31227)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa dystiolaeth sy'n bodoli o bresenoldeb wiwerod coch yng nghwm Onllwyn a'r ardaloedd cyfagos. (WAQ31228)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw poblogaeth yr ehedydd a'r bras melyn yn dirywio neu'n cynyddu yng Nghymru, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu niferoedd yr adar hyn. (WAQ31229)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl achos pendant o BSE a gafwyd yng Nghymru ymhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ31235)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganran o'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i Lywodraeth Leol sydd wedi'i chlustnodi ymhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, a pha ganran y bwriedir ei chlustnodi yn ystod 2004/05. (WAQ31260)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth i bobl anabl mewn etholiadau llywodraeth leol. (WAQ31090)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y paratoadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol eleni. (WAQ31089)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynllun Dyfarndaliad i Gynghorwyr am wasanaeth a roddwyd. (WAQ31088)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian ychwanegol a addawodd y Canghellor i helpu i atal cynnydd mawr yn y Dreth Gyngor yng Nghymru yn 2004/05. (WAQ31087)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthu grantiau gwella perfformiad i Gynghorau lleol yn 2004/05. (WAQ31086)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y Cynghorwyr sydd wedi gwneud cais am Ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd. (WAQ31085)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y gweithdrefnau y mae wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau nad yw'r cynghorwyr hynny sy'n derbyn Dyfarndaliad am Wasanaeth a roddwyd, ac nad ydynt yn sefyll yn Etholiadau Llywodraeth Leol Mehefin 2004, yn gymwys i sefyll mewn etholiadau yn y dyfodol. (WAQ31084) **R**

**David Davies (Mynwy);** Pa gyllid sydd ar gael i'r Gweinidog i ostwng y trethi cyngor yng Nghymru. (WAQ31083)

**David Davies (Mynwy);** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru. (WAQ31082)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Yn eich araith gyllideb, roeddech chi’n cyfeirio at £268 miliwn ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, sef cynnydd o £47 miliwn. A fyddech cystal â rhoi manylion penawdau’r gyllideb lle rhoddir yr arian hwn. (WAQ31219)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa benderfyniadau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi’u cymryd ers etholiadau diwethaf y Cynulliad sy’n effeithio ar gyllidebau Awdurdodau Lleol. (WAQ31230)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar ôl pa ddyddiadau y gwneir taliadau i ddibynyddion o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

pe bai cynghorydd yn marw neu’n ymddeol oherwydd salwch. (WAQ31232)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sydd wedi’u cymryd i gynnwys unrhyw daliad a wnaed yn dilyn marwolaeth Cynghorydd o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 yn ystad y Cynghorydd i ddibenion rhwymedigaeth i dreth etifeddiaeth. (WAQ31233)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw’r Gweinidog wedi trafod cyhoeddi enwau Cynghorwyr sydd wedi cofrestru diddordeb yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 gydag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. (WAQ31234)

## *Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y Ty*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sy'n cael eu trafod i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i weithwyr y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer parcio eu ceir. (WAQ31243)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt bresennol y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post. (WAQ31262)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yng ngoleuni'r ymateb i WAQ29939, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthyf sut y mae'n bwriadu creu darlun o anghenion tai Cymru gyfan, a sut y caiff Cynllun Gofodol Cymru gyfan ei lywio heb y darlun hwn. (WAQ31222)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Sut ac ym mha ffordd y mae’r Cynulliad yn cynorthwyo cynllun Heddlu De Cymru i ddarparu plismona ychwanegol mewn ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf. (WAQ31265)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau dialysis yr arennau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31081)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam nad yw emffysema yn cael ei ystyried yn salwch hirdymor. (WAQ31192)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau addysg iechyd o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf. (WAQ31193)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw effaith ddisgwyliedig contract newydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar wasanaethau meddygon teulu ar ôl 1 Ebrill 2004. (WAQ31194)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth seibiant HIV-AIDS yng Nghymru. (WAQ31195)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gyfleusterau Iechyd Plant yn y Gogledd. (WAQ31196)

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth Osteoporosis yn Sir Fynwy. (WAQ31197)

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gostau rhedeg blynyddol amcangyfrifedig uned cydraddoldeb hawliau dynol y GIG. (WAQ31198)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth meddygon teulu wrth gefn sydd ar gael yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31199)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar gynlluniau gwario ei Hadran ar gyfer y flwyddyn i ddod. (WAQ31200)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf inni ar ba mor hir y mae'n rhaid i bobl aros am driniaeth yng Nghymru. (WAQ31201)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganfyddiadau'r tablau cynghrair iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd. (WAQ31202)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth mae'r Gweinidog wedi'i wneud i anrhydeddu ei hymrwymiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd yn rhaid aros mwy na 18 mis am driniaeth o dan y GIG erbyn Ebrill 2004. (WAQ31203)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth yw a) ffigurau gwirioneddol a b) amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru am foddion ar bresgripsiwn am ddim nad yw cleifion yn ei ddefnyddio, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyn. (WAQ31244)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth mae'r Gweinidog wedi'i wneud dros y Pwyllgor Iechyd i sicrhau na fydd yn rhaid aros mwy na 18 mis erbyn Ebrill 2004. (WAQ31245)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth ar gyfartaledd yw cost gwely am ddiwrnod i GIG Cymru. (WAQ31246)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sawl diwrnod gwely sydd wedi'i golli dros y tair blynedd diwethaf yn sgil llawdriniaethau a ganslwyd yng Nghymru. (WAQ31247)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint y pen sy'n cael ei wario ar gyfartaledd ar drin clefyd Alzheimer a therapïau cysylltiedig yng Nghymru. (WAQ31248)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Ymhellach at WAQ30872, a wnaiff y Gweinidog roi manylion y gost uwch i'r GIG yng Nghymru o ddefnyddio darparwyr preifat ar gyfer llawdriniaethau'r GIG o'u cymharu â'r un llawdriniaethau a wneir o dan y GIG. (WAQ31207)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Am faint y mae'n rhaid aros ar hyn o bryd am apwyntiad cyntaf mewn Clinig Lleddfu Poen ym mhob un o Ymddiriedolaethau GIG Cymru. (WAQ31208)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl achos pendant o glefyd amrywiolyn CJD a gafwyd yng Nghymru ymhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ31236)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa ganllawiau a roddir i feddygon teulu ynghylch darparu gwasanaethau nyrsio i bobl ag epilepsi. (WAQ31266)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o lawfeddygon ymgynghorol sy'n darparu gwasanaeth i bobl ag epilepsi yn Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda; ac am faint mae cleifion yn aros, ar gyfartaledd, i'w gweld (WAQ31267)